This Week
Y Ffordd Ymlaen

GWYLIAU A DIGWYDDIADAU

Yn 2000 dangosodd *This Week Wales* ei ymrwymiad i helpu i ddenu twristiaid i Gymru drwy farchnata gwyliau a digwyddiadau drwy gyfrwng *Cymru'r Milflwydd* yn yr Eisteddfod Genedlaethol a thrwy lofnodi'r pecyn noddi 3 blynedd, 'Digwyddiad Cymreig y Flwyddyn' dan ofal Bwrdd Croeso Cymru. Mae hwn yn ddatblygiad polisi pwysig sy'n cysylltu deinameg digwyddiadau diwylliannol gyda dulliau newydd deinamig o gyfathrebu gyda marchnadoedd lleol a byd-eang. Cyflwynwyd y wobr yn 2000 i'r *Sesiwn Fawr*, sy'n brofiad unigryw Gymreig i ymwelwyr ym mis Gorffennaf yn y dref hynafol yn Sir Meirionydd, Dolgellau, gogledd Cymru. Mae'r *Sesiwn Fawr* yn ddathliad o'r diwylliant Cymreig ar ei orau ac mae'n enghraifft wych o sut y gall diwylliant, drwy dwristiaeth, sicrhau twf economaidd mewn cymuned. Mae'r wyl yn cyd-fynd yn berffaith gyda'r strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ac mae'n bwriadu camu ar lwyfan mwy fyth, gan gryfhau, yn hytrach nag ymwrthod â'i ymdeimlad o hunaniaeth leol wrth iddi ddatblygu.

Mae gwyliau a digwyddiadau, mawr a man, yn rhoi i Gymru y cyfle gorau posib i wahaniaethu ei chynnyrch twristiaeth oddi wrth wledydd eraill Prydain; sef y cyfle i werthu i ymwelwyr ar lwyfan rhyngwladol yr addewid o brofiad cofiadwy sy'n ddiamheuol Gymreig. Mae gwyliau a digwyddiadau yn ychwanegu gwerth ac ystyr i gyrchfannau yng Nghymru. Maent yn rhoi bywyd i atyniadau a fyddai fel arall, o bosib, yn aros yn llonydd; dônt ag ymwelwyr i gysylltiad â'r bobl leol, â chynnyrch lleol, a chyda'r iaith Gymraeg a'i holl dafodieithoedd. Mae pob gwyl a digwyddiad yng Nghymru yn rhoi sylfaen i gyfle gwych i ddarparwyr twristiaeth becynnu eu cynnyrch. Gall y rheini a gynhelir y tu allan i'r tymor prysur yn arbennig fod yn allweddol i gynyddu'r cyfraddau gwelyau llawn blynyddol cyffredinol.

Cymru'r Milflwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2000

CLYSTYRAU TEITHIO TWRISTIAETH

Bu'r diwydiant twristiaeth yn ymwybodol ers peth amser o ba mor bwysig yw pecynnu, er mai ychydig a welwyd yn defnyddio'r cyfrwng hwn. Mae hyn yn newid yn aruthrol, ond yn hytrach na defnyddio'r cyfrwng eu hunain, mae busnesau yn rhoi'r cyfrwng yn nwylo'r ymwelwyr, gan eu galluogi fwyfwy i gyflawni rôl y cyflenwyr a theilwrio eu pecynnau eu hunain.

Cyfryngau gwybodaeth syml ond manwl yw'r cyfryngau hyn, ac maent ar gael ar y rhyngrwyd gyda chefnogaeth y cyfryngau traddodiadol. Defnyddir mapiau i gyflwyno gwybodaeth yn unigol ac mewn clystyrau, gan helpu ymwelwyr i gael cipolwg ar yr amrywiol wasanaethau a'r profiadau sydd ar gael mewn unrhyw gyrchfan benodol. Mae hyn nid yn unig yn hwylus ond mae hefyd yn cael gwared â llawer iawn o risg o'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae *This Week Wales* wedi datblygu mapio digidol yn arbennig ar gyfer y broses hon (gweler hefyd Atodiad 8, tudalen 26), gyda 116 o haenau o wahanol wybodaeth am wyliau a digwyddiadau, atyniadau i ymwelwyr, safleoedd bywyd gwyllt, lletyau gwyliau, trafnidiaeth gyhoeddus a llawer mwy. Mae pob haen yn cynnwys gwybodaeth gwbl ddiweddar gan gynnwys, os yn berthnasol, amseroedd agor a phrisiau i helpu ymwelwyr i gynllunio eu taith cyn cychwyn. Caiff gwybodaeth ei chlystyru'n otomatig o amgylch unrhyw bwynt a ddewisir, neu gellir ei gweld ar unwaith fesul categori.

Clystyrau Teithio Twristiaid yw'r dechnoleg map syml a saif y tu ôl i *This Week* a'r safle gwe newydd *thisweek.co.uk* Cynigia ffenestr gyffredinol ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru i ymwelwyr, gan ganolbwyntio'n fanwl ar bob tref a phentref yng Nghymru. Mae'n rhoi i'r ymwelwyr y cyfryngau gwybodaeth y gallant eu defnyddio i gynllunio eu teithiau.

thisweek.co.uk
THE ESSENTIAL ONLINE GUIDE FOR WALES

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS HON YN Y DU

Arloesodd *This Week* yn y defnydd o dechnoleg ddigidol ym maes cyhoeddi papurau newydd ym 1988 pan ddatblygodd y papur newydd tabloid cyntaf o'i fath i gael ei gyhoeddi gan gyfrifiadur. Roedd yn gam arloesol i *This Week* ac yn gam arloesol i Gymru. Ymhen hir a hwyr câi pob papur newydd ei gyhoeddi drwy ddefnyddio'r un dechnoleg, ond gallai *This Week*, fel arloeswr ac fel y gweithredwr cyntaf yn ei ddewis farchnad, sicrhau mantais fasnachol unigryw a chystadleuol, ac roedd yn amlwg yn codi i frig y farchnad fel brand a chyhoeddwr papurau newydd hamdden a thwristiaeth.

'Mae This Week ar fin lansio chwyldro arall eto yn y byd cyhoeddi...'

Ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, mae T*his Week* wedi ymestyn ei ddosbarthiad i gynnwys Cymru gyfan drwy 4 rhifyn rhanbarthol a 2 rifyn Cymraeg, yn ogystal â rhifynnau ar gyfer gogledd orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr, de orllewin Lloegr a Gweriniaeth Iwerddon. Rhwng 1997 a 99 darllennodd dros 4,300,000 o bobl bapurau newydd *This Week*.

Wrth i ni gamu i ganrif newydd mae *This Week* ar fin lansio chwyldro arall eto yn y byd cyhoeddi a Chymru fydd y cyntaf i elwa unwaith eto. Drwy ddefnyddio'r dechnoleg a'i galluogodd ym 1988, bydd *This Week* yn lansio portffolio unigryw o gynnyrch gan greu'r arweiniad hamdden perffaith i'r DU ar ffurf *thisweek.co.uk* a, thrwy hynny, bydd yn grymuso diwydiant hamdden y DU i ddarparu'r arweiniad mwyaf effeithiol, deinamig a phersonol i weithgareddau hamdden ar gyfer defnyddwyr y DU. Cynlluniwyd cymysgedd *This Week* o gynnyrch i greu arweiniad hamdden a system archebu berffaith i'r DU, sy'n cynnwys tri chynnyrch (dau gyhoeddiad papur newydd argraffedig *This Week* a chyfres o gynnyrch ar-lein rhyngweithiol dan ymbarél *thisweek.co.uk*):

- ***This Week Metro***

  Rhifyn cenedlaethol o'r papur newydd tabloid sy'n targedu'r farchnad cyn-ymweld ac arweiniad cynhwysfawr i'r prif ddigwyddiadau yn y DU. Rhoddir sylw llawn i'r holl brif ddigwyddiadau ym Mhrydain a cheir hefyd ffocws lleol. Fe'i dosberthir (am ddim) i archfarchnadoedd a thai (o ddrws i ddrws). Lansiwyd rhifyn Cymru yn 2000.

- ***thisweek.co.uk***

  Cyfres o gynnyrch ar gyfer y Rhyngrwyd yn hyrwyddo gweithgareddau hamdden drwy'r DU ac yn grymuso'r diwydiant hamdden gyda'r cyfryngau i hyrwyddo a gwerthu ei gynnyrch hamdden. Mae cynnyrch Cymru, a lansiwyd yn 2000, yn datblygu'n gyflym.

- **Cyhoeddiad rhanbarthol *This Week***

  Mae hwn ar gael mewn 80% o'r lletyau i dwristiaid, mewn safleoedd petrol a chanolfannau croeso. Hwn yw papur newydd tabloid gwreiddiol *This Week* yn ystod ymweliad, fe'i paratoir ar gyfer gwahanol ranbarthau'r DU, fe'i rhoddir i'r defnyddwyr ar ôl iddynt gyrraedd neu ar eu taith, drwy westai, mannau gwybodaeth i dwristiaeth a safleoedd petrol (mae 85% o dwristiaid y DU yn cyrraedd mewn car).

Beth sydd mor arbennig am *thisweek.co.uk*?

Mae *thisweek.co.uk* yn cynrychioli'r cyswllt rhwng 2 strategaeth ddigidol. Yn gyntaf, mae'n ymwneud â grymuso'r diwydiant hamdden – mae thisweek.co.uk yn rhoi i holl aelodau'r diwydiant hamdden wasanaeth rheoli gwybodaeth ac archebu. Gall unrhyw drefnydd digwyddiadau, rheolwr atyniad neu ddarparwr llety (bach neu fawr) gysylltu am ddim ag adnodd ar-lein i reoli ei restr archebion a'r wybodaeth i'w dosbarthu.

Yna, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio cynnwys ail strategaeth thisweek.co.uk; cynnyrch defnyddwyr thisweek.co.uk – y safle gwe hamdden DU-gyfan a'r e-gylchlythyr gweithgareddau personol sy'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr bob wythnos o'r hyn sy'n digwydd yn eu cyffiniau ac mewn llefydd y bwriadant ymweld â nhw.

Anfonwyd e-gylchlythyrau rhanbarthol ar ddigwyddiadau yng Nghymru i dros 15,000 o bobl yn ystod 2000, gan roi Cymru ymhell ar y blaen o safbwynt defnyddio'r cyfrwng marchnata newydd chwyldroadol hwn.

Fel canlyniad i hyn oll, ceir perthynas uniongyrchol, gyson a hynod bersonol rhwng y diwydiant a'r defnyddiwr, gan greu'r arweiniad 'digwyddiadau', y newyddion lleol a'r brand gwybodaeth perffaith ar gyfer y DU.

Digwyddiadau'r wythnos hon yn y DU? ...thisweek. co.uk?

© This Week Media Network Limited 2000

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i warchod yn llwyr gan hawlfraint ac ni chaniateir copïo unrhyw ran ohono at unrhyw ddiben heb gael caniatâd ysgrifenedig pendant gan This Week Media Network Limited.